# Arwain y broses asesu gydag unigolion

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion pan fyddwch yn arwain y broses asesu gydag unigolion. Mae hyn yn cynnwys gweithio ar y cyd ag unigolion i gynnal asesiad manwl o'u dewisiadau a'u hanghenion a'r canlyniadau y maent yn dymuno'u cyflawni. Mae'n cynnwys grymuso eraill i nodi a gweithredu newidiadau o ran dewisiadau ac anghenion unigolion.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cael caniatâd a chael gafael ar wybodaeth am unigolion
2. cefnogi unigolion ac eraill i ddeall y broses asesu a phwrpas y broses honno
3. gwrando ac ymateb mewn ffyrdd sy'n dangos eich bod yn gwerthfawrogi ac yn parchu unigolion
4. grymuso unigolion i nodi a chael gafael ar yr wybodaeth, yr adnoddau neu'r cymorth sydd eu hangen arnynt i gymryd rhan yn y broses asesu
5. gweithio ar y cyd ag unigolion ac eraill i nodi eu dewisiadau a'r anghenion i'w hasesu, a pha ganlyniadau maent yn dymuno'u cyflawni
6. cynnal asesiadau mewn ffordd sy'n cefnogi cyfranogiad ac annibyniaeth unigolion
7. gweithio ar y cyd ag unigolion ac eraill i gytuno ar y canlyniadau maent yn dymuno'u cyflawni yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir
8. mynd ati gydag unigolion i nodi sut y gallant ddefnyddio ac adeiladu ar eu cryfderau a'u sgiliau i gyflawni eu canlyniadau
9. trafod atebion mewn partneriaeth ag unigolion pan fydd modd i ganlyniadau gyflwyno heriau
10. arwain y gwaith o ddatblygu systemau a gweithdrefnau i gefnogi unigolion ac eraill i roi gwybod am newidiadau i'r canlyniadau
11. gweithio mewn partneriaeth â phawb sy'n rhan o'r gwaith i gytuno ar unrhyw newidiadau sydd eu hangen i'r canlyniadau asesu a sut y bydd y rhain yn cael eu rhoi ar waith
12. cydnabod llwyddiannau a chyflawniadau unigolion tuag at eu canlyniadau
13. cwblhau'r cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer arwain y broses asesu gydag unigolion
14. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth gaffael gwasanaethau ar gyfer unigolion

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. rôl perthnasoedd a rhwydweithiau o ran cwrdd â chanlyniadau unigolion
2. dylanwad diwylliant, cefndir a daliadau ysbrydol ar ddewisiadau ac anghenion unigolion
3. sut mae cael gafael ar wybodaeth am unigolion i gefnogi gwneud penderfyniadau gwybodus ar gyfer asesiadau, a sut mae adolygu a gwerthuso'r wybodaeth honno
4. sut mae annog a chefnogi cyfranogiad ac annibyniaeth unigolion yn ystod asesiadau
5. y gwahanol fathau o wybodaeth, adnoddau a chymorth a allai helpu unigolion yn ystod asesiad, a sut i sicrhau eu bod yn hygyrch
6. gwahanol fathau o asesiadau personol manwl
7. sut mae arwain o ran defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma wrth asesu unigolion
8. sut mae cefnogi niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol unigolion yn y broses asesu
9. dulliau o annog ac ysgogi unigolion i ddefnyddio ac adeiladu ar eu cryfderau a'u sgiliau i gyflawni eu canlyniadau
10. sut mae arwain o ran urddas, caredigrwydd a thosturi yn y broses asesu
11. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol yn ystod y broses asesu
12. sut mae monitro canlyniadau asesiadau yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir
13. egwyddorion asesiadau risg a rheoli risgiau
14. sut mae datblygu systemau a gweithdrefnau i gefnogi unigolion ac eraill i roi gwybod am newidiadau i ganlyniadau
15. sut mae gweithio ar y cyd ag unigolion ac eraill i adolygu a rhoi adborth ar ganlyniadau a newidiadau
16. sut mae grymuso eraill i nodi newidiadau yng nghanlyniadau unigolion
17. sut mae defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol yn ystod y broses asesu
18. gofynion o ran cofnodion ac adroddiadau ar gyfer arwain y broses asesu
19. theorïau sy'n berthnasol i arwain y broses asesu gydag unigolion
20. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a'r canllawiau perthnasol ar gyfer arwain y broses asesu gydag unigolion
21. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth,

cynhwysiant a hawliau wrth arwain y broses asesu gydag unigolion
22. sut mae ymateb i faterion a phryderon a allai godi yn ystod y broses asesu gydag unigolion
23. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i arwain y broses asesu gydag unigolion
24. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth arwain y broses asesu gydag unigolion, a sut i fynd i'r afael â hyn
25. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth arwain y broses asesu gydag unigolion

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

Arwain y broses asesu gydag unigolion

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD414 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Y Broses Asesu, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |